Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**
**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot**
**SA13 1PT**

**Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

### Cyfarwyddiaeth

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes yn cynnwys y swyddogaethau canlynol: ysgolion, hamdden a dysgu gydol oes, llyfrgelloedd ac mae'n gyfrifol am ganolfan technoleg gwybodaeth (TG). Caiff ei harwain gan Gyfarwyddwr sy'n cael ei gefnogi gan dri Phennaeth Gwasanaeth, sydd â chyfrifoldebau penodol dros:

- Ysgolion, Cynhwysiad a Datblygu Dysgu Gydol Oes;
- Partneriaethau a Datblygu Cymunedol; a
- Gwasanaethau Cymorth a Datblygu Comisiynu.

### Cyd-destun

Mae awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn cwmpasu ardal yn ne orllewin Cymru sy'n ffinio ag Abertawe i'r gorllewin, Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain a Sir Gaerfyrddin, Powys a Rhondda Cynon Taf i'r gogledd. Cafodd ei greu yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 a'i ffurfio o ran o hen sir Gorllewin Morgannwg. Yn 2008, rhoddodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 19% o gymunedau Castell-nedd Port Talbot yn y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar gyfer amddifadedd cyffredinol. Hon yw'r drydedd ganran uchaf yng Nghymru. Yn 2009, amcangyfrifwyd mai poblogaeth y sir oedd 137,425, gan olygu mai Castell-nedd Port Talbot yw'r wythfed Cyngor mwyaf yng Nghymru. O 2009 i 2021, disgwylir i'r boblogaeth gynyddu 7,000, sef cynnydd o oddeutu 5%. Er y bydd y boblogaeth dan 65 oed yn aros yn sefydlog, disgwylir i'r boblogaeth dros 65 oed gynyddu'n sylweddol.

Ganed nawdeg y cant o boblogaeth y Fwrdeistref yng Nghymru a gall 20.3% o'r boblogaeth siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Hon yw'r degfed ganran fwyaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 10-15 (36%).

Yn 2009, y gyfradd gyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd 60.7%. Hon oedd y gyfradd isaf ond un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau wedi disgyn yn raddol er 2000, tra bod canran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau lefel 4 neu'n uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol wedi cynyddu'n raddol er 2001.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 85 o ysgolion: 71 ysgol gynradd, 11 ysgol uwchradd, tair ysgol arbennig a thair uned cyfeirio disgyblion. O fewn y strwythur hwn, mae'r awdurdod yn cynnal 21 o ganolfannau cymorth dysgu hefyd sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r canolfannau hyn yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae 98% o blant tair oed a 98.7% o blant pedair oed yn defnyddio darpariaeth blynyddoedd cynnar yr awdurdod. Poblogaeth yr holl ysgolion yw 20,825. Cymhareb y disgyblion i athrawon yw 17.5, sy'n agos at y cyfartaledd yng

Nghymru, sef 17.6. Maint cyfartalog dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd yw 19.3 ac 16.3 mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ffigurau hyn yn agos at y cyfartaledd yng Nghymru.

Canran y disgyblion mewn addysg orfodol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 24.9% ac 20.1% mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ôl eu trefn. At ei gilydd, mae gan 22.7% o ddisgyblion yr hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 18.9% yn genedlaethol. Hon yw'r bedwaredd ganran uchaf yng Nghymru. Cyfran y disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (Prydeinig heb fod yn wyn) yw 4.6%, o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 8.2%.

Mae 442 o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol, sef 48 yn fwy na'r llynedd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr.

**Cyllid**

Roedd Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010-2011 fesul unigolyn yng Nghastell-nedd Port Talbot fymryn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r cyngor wedi gosod ei gyllideb refeniw gyffredinol ar 104.4% o'r AGS, sef cymhareb uwch nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, gosodwyd ei gyllideb Addysg ar 99.5% o'i Asesiad Addysg wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (ASDd), sy'n agos at y cyfartaledd yng Nghymru. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae hyn wedi disgyn o 102.7%, sef y ganran uchaf ond dwy yng Nghymru ar y pryd. Serch hynny, mae'r gyllideb addysg net ar gyfer 2010-2011 yn gyfwerth â £5,125 fesul disgybl, o'i chymharu â chyfartaledd o £4,800 yng Nghymru gyfan.

Y gyllideb unigol ar gyfer ysgolion cynradd (£4,044 y disgybl) yw'r uchaf ond dwy yng Nghymru, tra bod y gyllideb ar gyfer ysgolion uwchradd (£4,229 y disgybl) yn ysgol at y cyfartaledd yng Nghymru.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Da**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda oherwydd:

- mae plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni safonau da iawn ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;
- mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg amser-llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wedi disgyn yn sylweddol ac mae'n well na'r cyfartaledd yng Nghymru; ac
- mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda a'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhagorol.

**Gallu i wella: Da**

Mae gan yr awdurdod lleol ragolygon gwella da oherwydd:

- mae ei waith wedi'i seilio ar egwyddorion a gynlluniwyd yn ofalus ynghylch ansawdd y gwasanaethau a ddarperir;
- caiff penderfyniadau a blaenoriaethau yn ymwneud â gwella ysgolion a threfniadaeth ysgolion eu llunio'n effeithiol; ac
- mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn darparu arweinyddiaeth effeithiol trwy eu dealltwriaeth dda o flaenoriaethau gwella a pherfformiad o fewn y gwasanaeth Addysg.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r awdurdod:

A1 wella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd pob cyfnod allweddol;

A2 mireinio a chryfhau trefniadau craffu ymhellach;

A3 gwella cynllunio strategol ar y cyd ac effaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPaPhl); a

A4 lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn unol â'r blaenoriaethau allweddol yn y rhaglen strategol ar gyfer gwella ysgolion (SSIP).

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn cyn pen 50 niwrnod gwaith o gael yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da**

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae safonau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dda. Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yng Nghastell-nedd Port Talbot islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 1, yn gyfartalog yng nghyfnod allweddol 2 ac yn dda yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn dda iawn; mae'r canlyniadau ym mron pob un o'r prif ddangosyddion uwchlaw'r cyfartaleddau Cymru gyfan ers pedair blynedd bellach. O'u cymharu ag ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae dros hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf ac un ysgol yn unig sydd yn y chwarter isaf. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, fel sydd i'w weld yn eu data gwerth ychwanegol rhwng pob cyfnod allweddol, sy'n dda ac yn dda iawn yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

Yn seiliedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 wedi cyrraedd pob un o feincnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf, neu wedi rhagori arnynt. Castell-nedd Port Talbot yw un o'r ychydig iawn o awdurdodau i gyflawni hyn.

Yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r cyfartaledd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn lleihau yng nghyfnod allweddol 4 ac mae perfformiad y bechgyn yn well na pherfformiad y merched o'i gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig neu'n uwch. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn ennill medrau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ac yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc yn gyffredinol.

Mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen yn dda i'r cam nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae canran y disgyblion 16 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn wedi gwella ynghynt nag yng ngweddill Cymru ac mae'n cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg. Mae'r nifer sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wedi disgyn yn sylweddol ac mae'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw canran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi gwella ar yr un cyflymder.

Mae enghreifftiau da o bobl ifanc yn cyflawni'n dda mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol.

**Lles: Da**

Mae safonau lles yn dda yn gyffredinol. Mae gan yr awdurdod ystod eang o fentrau a strategaethau llwyddiannus i hybu cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu. Mae ffigurau presenoldeb yn y sector uwchradd yn dda iawn ac yn unol â chyd-destun economaidd-gymdeithasol yr ardal yn y sector cynradd. Mae gwaharddiadau wedi gostwng ledled yr awdurdod mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, fel ei gilydd.

Mae arfarniadau'r awdurdod ei hun o brosiectau, fel Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (ACEDd), yn dangos effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac addysgu a dysgu. Mewn rhai ardaloedd, nid oes gan bobl ifanc fynediad da at glybiau ieuenctid.

At ei gilydd, mae'r awdurdod yn cynnwys plant a phobl ifanc yn dda mewn datblygu strategaethau, polisïau a gwasanaethau, yn ogystal â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r ymglymiad hwn wedi'u helpu i ddysgu am fwyta'n iach a ffitrwydd ac wedi gwella eu cyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Mae'r ymglymiad hwn wedi gwella'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhaPh).

Mae gan y Cyngor Ieuenctid berthynas sefydledig ag uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Cyflawnodd y Cyngor Ieuenctid Wobr Philip Lawrence 2010 am y cyfraniadau a wnânt i sicrhau bod gan bobl ifanc lais yng Nghastell-nedd Port Talbot.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer gwella ysgolion: Da**

Mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda. Mae'r awdurdod lleol wedi gwella trylwyrder ei brosesau ar gyfer monitro, cynorthwyo a herio pob ysgol ac ymyrryd os oes unrhyw beth yn peri pryder.

Mae'r awdurdod yn rhoi ystod dda iawn o ddata i aelodau etholedig ac ysgolion ac yn darparu hyfforddiant o ansawdd ar sut i'w ddefnyddio. Mae swyddogion yn gynyddol yn defnyddio'r data hwn yn dda i olrhain cynnydd disgyblion, i nodi tangyrhaeddiad ac i dargedu cymorth ac ymyrraeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r awdurdod yn gwella trylwyrder ei her i ysgolion er mwyn sicrhau bod safonau disgyblion yn parhau i wella.

Mae swyddogion yn cynnal rhaglen o ymweliadau monitro ac adolygiadau ysgol sydd wedi'u strwythuro'n dda, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn dda i adnabod meysydd i'w gwella. Maent yn rhoi adolygiadau ysgrifenedig defnyddiol i ysgolion o'r ymweliadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau yn arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn ddigon cyson hyd yn hyn. Mae'r awdurdod yn defnyddio ei wybodaeth am ysgolion yn dda i adnabod nifer fach o ysgolion sydd angen cymorth estynedig ac mae'n gweithredu ar y wybodaeth hon i'w helpu i wella.

Mae gan yr awdurdod strategaethau effeithiol i wella perfformiad ysgolion, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae mentrau da iawn i wella

llythrennedd sydd â phwyslais cryf ar ddarllen. Nid yw'r cymorth ar gyfer rhifedd wedi'i ddatblygu cystal. Mae'r awdurdod yn darparu cymorth da iawn ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith ac mae wedi gwneud cynnydd da iawn, mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau addysg bellach, o ran gwella dewis a chyfleoedd i rai 14-19 oed. Mae'r cymorth ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn dda.

Ni chaiff asesiadau athrawon o'r pynciau craidd ar ddiwedd pob cyfnod allweddol eu cymedroli'n ddigon cyson rhwng ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyflawniad disgyblion yn fanwl gywir.

Mae'r awdurdod yn darparu cymorth a hyfforddiant da i arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel mewn ysgolion ac i gyrff llywodraethol. Mae swyddogion yn sicrhau y caiff adroddiadau perfformiad blynyddol eu cyflwyno i bob corff llywodraethol.

**Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Rhagorol**

Mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhagorol. Mae'r awdurdod wedi adeiladu'n llwyddiannus ar yr arfer ragorol ar nodwyd yn arolygiad Estyn yn 2008.

Er bod lefelau angen yn cynyddu, mae ysgolion yn cadarnhau bod yr awdurdod yn llwyddiannus iawn o ran atgyfnerthu ei allu i gynorthwyo ystod eang o ADY yn effeithiol; caiff hyn ei gyflawni trwy waith partneriaeth o ansawdd rhagorol. Mae'r ysgolion arbennig yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd i ddarparu ystod o gymorth, cyngor a hyfforddiant effeithiol i ysgolion prif ffrwd ledled yr awdurdod.

Bu'r awdurdod lleol yn hynod lwyddiannus o ran cynyddu gallu ysgolion i gynorthwyo ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol, er gwaethaf lefelau cyllid gostyngol.

Caiff y modd y caiff yr holl adnoddau eu defnyddio ei adolygu a'i arfarnu'n rheolaidd, ar y cyd ag ysgolion, er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i ddisgyblion. Mae'r awdurdod yn prynu therapi iaith a lleferydd i fodloni'r galw. Mae adroddiadau adborth ffurfiol gan ysgolion yn dangos bod y cymorth hwn yn effeithiol.

Hefyd, mae cysylltiadau da iawn rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd ac, o ganlyniad, mae'r cymorth i athrawon prif ffrwd yn hynod effeithiol mewn meysydd fel nam ar y golwg, nam ar y clyw ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

Caiff adnoddau ADY eu harfarnu ar y cyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i ddisgyblion. Mae'r arfer hon yn arwain y sector.

Caiff data ei ddefnyddio'n dda i fonitro proffil anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer awtistiaeth ac anawsterau ymddygiad, ynghyd â chynnydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig. Mae nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir wedi lleihau'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Caiff 95.5% o ddisgyblion â datganiadau eu haddysgu yng

Nghastell-nedd Port Talbot, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 91%. Mae hyfforddiant a chymorth o ansawdd rhagorol ar waith ar gyfer pob agwedd ar ADY.

Mae pob un o feysydd y gwasanaeth yn ymatebol i anghenion ysgolion, disgyblion a rhieni.

Mae trefniadau rhagorol ar waith i fonitro'r ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau cymorth dysgu. Caiff deilliannau eu defnyddio'n systematig i lywio arfer. Mae dadansoddi data cyflawniad disgyblion ADY yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig neu'n rhagori arnynt.

Mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau statudol yn effeithlon iawn; caiff meini prawf mynediad ac ymadael eu defnyddio'n briodol i sicrhau'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar ddisgyblion ar bob lefel o fewn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae gwaith amlasiantaeth rhagorol yn hwyluso'r gwaith o asesu anghenion disgyblion yn gynnar, gyda 9% o ddatganiadau yn ymwneud â phlant cyn oed ysgol. Ar hyn o bryd, caiff yr holl ddatganiadau eu cwblhau o fewn y terfynau amser statudol.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig o ansawdd da yn cael ei darparu i rieni, gan gynnwys sut i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth. Mae swyddogion cyswllt ADY yn cydweithio'n agos â rhieni, ac mae nifer uchel iawn o rieni yn cyfrannu at ddatganiad eu plentyn. Mae nifer yr apeliadau i'r tribiwnlys AAA yn fach iawn.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Da**

Mae'r gwaith o hybu cynhwysiant cymdeithasol a lles yn dda, ac mae'r awdurdod yn parhau i arwain y gwaith hwn yn gryf.

Mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael yn dda â'r ystyriaethau yn ymwneud â chynhwysiant a lles a godwyd yn arolygiad diwethaf Estyn. Mae hyfforddiant i aelodau etholedig ar eu rôl rhianta corfforaethol wedi gwella. Mae deilliannau gwell i blant y gofelir amdanynt (LAC) yn adlewyrchu gwaith partneriaeth effeithiol rhwng pob asiantaeth berthnasol. Mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn dda ar gyfer plant y gofelir amdanynt.

Mae'r awdurdod yn targedu gwasanaethau yn effeithiol i fodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys canolfannau cynhwysiant ar gyfer cyfnod allweddol 3, prosiect ENGAGE ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r Prosiect Cynnwys Plant.

Mae'r awdurdod yn defnyddio data ar lefel ysgolion yn dda i ddeall sut mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, ymddygiad ac agweddau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r modd y mae asiantaethau sy'n rhan o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPaPhI) yn defnyddio data wedi'i ddatblygu cystal. Mae hyn yn golygu nad yw'r awdurdod yn gwybod digon am effaith y ddarpariaeth ar draws y PPaPhI. Fodd bynnag, mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella ledled yr awdurdod trwy brosiectau fel yr Adolygiad o Systemau Gwasanaethau Plant, sy'n rhoi rhagolygon da iawn ar gyfer dulliau effeithiol ac effeithlon newydd o weithio rhyngasiantaethol.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaethau o ansawdd da y gall dysgwyr eu defnyddio'n rhwydd. Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi mentrau Cadw mewn Cysylltiad (CMC) yn dda ac yn rhoi cymorth da i helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir wedi cynyddu ystod y cyfleoedd i bobl ifanc gael achrediad am eu gwaith. Fodd bynnag, ar draws y rhwydwaith darparwyr ieuenctid ehangach, nid yw'r cyfleoedd i fanteisio ar ddarpariaeth achrededig yn ddigon cyson. Nid oes gan yr awdurdod ddigon o wybodaeth i arfarnu'n llawn pa mor llwyddiannus y mae'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth o ran datblygu cyflawniadau a chyrhaeddiad pobl ifanc.

Mae prosesau a gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer diogelu, o fewn addysg, yn foddhaol.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae gan yr awdurdod egwyddorion clir sydd wedi'u seilio ar wella safon y ddarpariaeth a gwneud ysgolion yn 'addas i'w diben', gan sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n gost effeithiol. Mae'n defnyddio'r egwyddorion hyn i helpu gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch lleihau nifer y lleoedd gwag ac ad-drefnu ysgolion.

Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu'r rhaglen strategol ar gyfer gwella ysgolion (SSIP) sy'n cwmpasu pob agwedd ar ad-drefnu, rhesymoli a moderneiddio ysgolion yn yr awdurdod, ynghyd â'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod dan y rhaglen hon. Mae'r SSIP wedi arwain at gyfres o benderfyniadau a chynigion sy'n cydweddu'n dda i anghenion penodol pobl ifanc a'u cymunedau. Mae'r rhain yn amrywio o ymgyfuno ysgol gynradd ac ysgol uwchradd i gynigion cau a chyfuno. Ymhlith y cynigion presennol, mae aelodau etholedig wedi cymeradwyo ymgynghoriad ar sefydlu ysgol uwchradd newydd i ddisodli tair ysgol gyfun bresennol. Mae hwn yn gam da ymlaen. Mae gan yr awdurdod gyfres dda a chynhwysfawr o ddata rheoli asedau ar gyfer ei adeiladau ysgol, sy'n cael ei defnyddio'n dda i lywio'r SSIP.

Mae gan yr awdurdod weithdrefnau derbyn priodol ar waith a gall sicrhau y caiff holl ddewisiadau ysgol rhieni eu bodloni.

Yn gyffredinol, caiff plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yn barhaol eu hailintegreiddio i ddarpariaeth briodol ymhen cyfnod byr.

Ar hyn o bryd, mae 98% o blant tair oed a 98.7% o blant pedair oed yn manteisio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yr awdurdod. Mae'r awdurdod yn monitro ac yn arfarnu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn dda, gan ddefnyddio'r holiaduron priodol ac ymweliadau gan ymgynghorwyr yn awdurdod. Mae'n archwilio'r ddarpariaeth chwarae yn briodol. Mae'r awdurdod yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid perthnasol i sicrhau y gall plant a phobl ifanc fanteisio ar ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw wedi archwilio gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ddigon da ac felly nid yw'n gallu nodi a oes ystod briodol o wasanaethau ai peidio.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Da**

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad a blaenoriaethau gwella'r gwasanaeth Addysg. Mae ganddynt ymroddiad cryf tuag at wella'r ddarpariaeth i bob plentyn ac unigolyn ifanc trwy sicrhau y caiff hadnoddau eu defnyddio'n deg ac yn effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Mae cysylltiadau strategol clir a sefydledig rhwng cynlluniau a pholisïau corfforaethol a gwasanaethau. Mae'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth addysg yn glir ac yn cael ei rhannu gan swyddogion ac aelodau, a'i hatgyfnerthu gan gyfathrebu da ag ysgolion. Mae cynlluniau a blaenoriaethau yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, wedi'u seilio ar ddadansoddiad trylwyr o anghenion lleol.

Cafwyd buddsoddiad sylweddol i symud blaenoriaethau datblygu allweddol ymlaen, fel ailstrwythuro addysg yng Nghwm Afan ac amddiffyn cyllidebau ysgolion gan 1% yn 2011-2012.

**Gwella ansawdd: Da**

Lluniodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu hir a manwl yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys gormod o ddisgrifiadau a dim digon o ddadansoddiad o effaith. Serch hynny, mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi hen ymsefydlu. Caiff y broses arfarnu ei chyflawni'n dda ar lefel prosiectau a gwasanaethau ac mae'r awdurdod yn ymgynghori'n eang. Mae'r trefniadau hunanarfarnu presennol yn galluogi swyddogion mewn gwasanaethau i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir. Er bod diffyg cysondeb ar draws meysydd gwasanaeth, mae gan yr awdurdod hanes da o fynd i'r afael ag adolygiadau gyda chamau gweithredu penodol. Mae hyn wedi arwain at ddarparu cymorth a gwasanaethau gwell yn y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig a'r gwasanaeth ymddygiad.

Mae'r defnydd systematig o ddata yn llywio'r gwaith ag ysgolion yn dda ac yn tanategu mentrau, er enghraifft ar lythrennedd, ymddygiad a lleoedd gwag. Mae gan yr awdurdod drefniadau effeithiol i wrando ar blant a phobl ifanc, ynghyd â systemau arbennig o dda i aelodau etholedig ac uwch swyddogion glywed eu pryderon.

Mae ffocws cryf ar gynnwys yr holl staff mewn hunanarfarnu, ac mae'r staff yn dwyn perchenogaeth ar newidiadau a datblygiadau. Mae rheoli rhaglenni a phrosiectau yn gadarn yn gyffredinol, er nad yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi'u datblygu'n llawn. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi mireinio ei ymagweddau tuag at adolygu systemau a rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau ac ar wybodaeth glir am berfformiad i fonitro effeithiolrwydd. Mae'r ymagwedd hon eisoes yn darparu arbedion ac mae dangosyddion cynnar yn awgrymu bod rheoli perfformiad wedi gwella.

Mae gan yr awdurdod ymroddiad cryf i gymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) ac mae'n chwarae rhan lawn yng ngwaith y consortiwm rhanbarthol. Wrth ddiffinio ei

ymglymiad yn y CDPau hyn, mae'r awdurdod yn cynnal ffocws cyson ar hybu diwylliant rhanedig o amgylch amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir.

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd addawol yn erbyn nifer o'r diffygion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu diweddar, ond mewn ychydig iawn o achosion, bu'r cynnydd yn rhy araf, yn enwedig mewn gweithio mewn partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, fel y nodwyd yn adroddiad Estyn yn 2008.

Mae cynhwysedd a gallu'r Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddarparu rôl effeithiol mewn gwella gwasanaethau yn datblygu'n raddol. Mae gan y pwyllgor lefel dda o ymwybyddiaeth o waith y gwasanaeth addysg a pherfformiad ysgolion yr awdurdod. Mae mentrau corfforaethol diweddar wedi helpu blaenraglen waith y pwyllgor i fod yn fwy cytbwys wrth iddo ddechrau cymryd rhan mewn datblygu polisïau ac adolygiadau craffu. Fodd bynnag, mae swyddogion ac aelodau'r cabinet yn dylanwadu gormod ar raglen waith y pwyllgor o hyd iddo eu dwyn i gyfrif yn gadarn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r cysylltiadau rhwng partneriaethau strategol yn dda.

Mae partneriaethau o asiantaethau statudol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir o fewn y PPaPhI. Maent yn craffu'n rheolaidd ar ystyriaethau'r PPaPhI, gan herio arfer a chytuno ar benderfyniadau ar gyfer ei chyfeiriad yn y dyfodol. Mae'r trefniadau hyn wedi hen ennill eu plwyf. Yn y gorffennol, mae'r Bartneriaeth wedi canolbwyntio gormod ar ddatblygu'r ddarpariaeth heb flaenoriaethu ei heffaith, ond mae'r darlun yn gwella yn hyn o beth.

Mae'r PPaPhI yn cydweithio'n effeithiol iawn â rhai partneriaid i sicrhau y gall plant a phobl ifanc fanteisio ar ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid oes gan y PPaPhI fap cyfredol o'r holl bartneriaid. Ni fu'n bosibl iddi archwilio'r rhain yn systematig ac felly ni all ganfod a oes ystod briodol o wasanaethau yn bodoli bob tro. Mae rhywfaint o anghysondeb o ran cynllunio, monitro ac arfarnu gwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae system gwybodaeth reoli ddefnyddiol ar waith yn y gwasanaeth ieuenctid statudol erbyn hyn i fynd i'r afael â hyn.

Mae gweithio mewn partneriaeth o fewn y Rhwydwaith 14-19 yn dda. Mae'n sicrhau cyfleoedd ehangach a deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr trwy gydweithio gwell. Mae'r bartneriaeth yn datblygu ymhellach trwy fwy o gynrychiolaeth gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Un o gryfderau penodol gweithio mewn partneriaeth yw graddau'r cydweithio da iawn ag ystod o asiantaethau i gynorthwyo dysgwyr ag ADY a'r rhai sydd dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod yn chwarae rhan weithredol a dylanwadol yn y gwaith y mae'r consortiwm awdurdodau rhanbarthol yn ymgymryd ag ef. Mae hyn yn cynnwys gwella hunanarfarnu ysgolion, rhannu data yn ehangach ac â mwy o ffocws,

hyrwyddo’r gwaith o ddatblygu cymunedau dysgu a rhannu arbenigedd yn amlach ac yn fwy effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr awdurdod reolaeth ariannol gadarn a hanes da o gyflawni ei gyllideb refeniw. Mae ganddo flaengynllun ariannol sefydledig, ac mae’n cynnal rhaglen gweddnewid ac adolygiadau o wasanaethau er mwyn cyflawni arbedion. Mae adolygiadau o wasanaethau yn ystyried gwahanol ddulliau o gyflawni’r deilliannau dymunol. Mae adolygiad gwasanaeth diweddar o gludiant ysgol wedi canfod arbedion blynyddol posibl o £954,000.

Yn draddodiadol, mae aelodau etholedig wedi rhoi blaenoriaeth uchel i addysg wrth ddyrannu adnoddau ariannol. Fodd bynnag, yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae gwariant addysg wedi disgyn o’i gymharu â gwasanaethau eraill y cyngor, oherwydd pwysau costau ar rannau eraill o’r gyllideb gorfforaethol. Mae aelodau etholedig wedi cymryd camau i fynd i’r afael â hyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf trwy roi’r cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw yn uniongyrchol yng nghyllidebau ysgolion. Rhoddwyd blaenoriaeth bellach i ysgolion trwy gytuno y caiff unrhyw arbedion a gyflawnir trwy’r rhaglen SSIP eu cadw yn y gyllideb addysg. Caiff cyfran uchel o’r gyllideb ysgolion ei dirprwyo i ysgolion unigol.

Mae’r awdurdod yn adolygu’r modd y mae’n cyllido ysgolion unigol er mwyn adlewyrchu eu hanghenion yn well. Hefyd, mae wedi cyflwyno cytundebau lefel gwasanaeth newydd i ysgolion cynradd, fel bod lefel y gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor, a’r costau cysylltiedig yn fwy tryloyw. Mae’r gwasanaeth cydfwrsar a ddarperir gan yr awdurdod wedi bod yn arbennig o boblogaidd ac mae nifer yr ysgolion sy’n hawlio’r gwasanaeth wedi cynyddu o naw i 35 yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Mererid Stone AEM | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Ian MacKinder | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Marc Forster | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Evans | Enwebai |
| Maggie Turford | Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Cymedrolwr |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)